

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Ionawr 8fed, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr John Williams, (Cadeirydd); Ifor Wyn Davies, (Is gadeirydd); Trefor Wyn Jones; William Ifor Hughes; Dafydd Williams; Brian W Ifans; Anwen Jones, Alwen Evans; Margaret Griffith a'r Clerc.

1. Ymweliad Ms Gwenan Ellis Jones, Cyd lynydd prosiect Siarter Iaith Cyngor Gwynedd. Croesawyd Ms Jones i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddodd gefndir sefydlu'r Siarter yn 2008 yn dilyn ymchwil mewn ugain ysgol gynradd yng Ngwynedd pan ganfuwyd mai 30% o'r plant oedd yn dewis siarad Cymraeg ar fuarth ysgol. Ffurfiwyd gweithgor a sefydlwyd y Siarter. Ail wampiwyd y Siarter yn 2012 a lansiwyd y pecyn cyflawn yn 2014 gan ddefnyddio Gwe Iaith sef rhaglen gyfrifiadur gyda saith cwestiwn ar ddefnydd y plant o'r iaith Gymraeg yn yr ysgol, gyda'u hathrawon/cymorthyddion, ar y buarth ac yn eu cymunedau. Erbyn hyn mae dros 12,000 wedi llenwi'r holiadur ar lein; yn ogystal mae plant Ynys Môn wedi ei llenwi ac mae Môn wedi ehangu'r prosiect i flynyddoedd 7,8 a 9 yr ysgolion uwchradd. Tua 1500 yn unig oedd yn dewis siarad Cymraeg a sylweddolodd nifer o blant eu hunain nad oeddent yn ymdrechu digon i siarad Cymraeg. Cafwyd Cyngorau Ysgol yn gosod targedau i blant eu hysgolion, sefydlu chwaraeon buarth newydd ac Apps Cymraeg. Roedd targedau gwahanol yn cael eu gosod mewn ardaloedd mwy Seisnig. Gan bod mwy a mwy o gymorthyddion yn gweithio mewn ysgolion, hyfforddwyd 300 ohonynt sut i gyflwyno gemau buarth fel dysgu hwiangerddi. Mae'r pwyslais ar annog yn hytrach nag arthio, cefnogi, canmol a gwobrwyo. Mae plant blwyddyn 3 yn gadarn, ddim cystal erbyn blwyddyn 5 felly mae blwyddyn 5 yn cael eu targedu ac i geisio hyrwyddo defnyddir enwogion fel Ed Holden, y rapiwr, a Malcolm Allen, y peldroediwr, i farchnata'r cynllun. Erbyn hyn mae pwyslais y Cwricwlwm ar sgiliau yng nghyd destun Cymru gyda'r cyfrifoldeb ar y plant eu hunain. Ceir pwyslais ar fwynhau pethau fel Dydd T Llew Jones, creu eisteddfod amgen gyda chystadlaethau fel dweud jocs neu feimio, ar agor radio ysgol gyda'r pwyslais ar gerddoriaeth Gymraeg. Ond mae angen darbwyllo pob ysgol, y penaethiaid a'r llywodraethwyr. Erbyn hyn mae saith sir arall wedi mabwysiadu'r cynllun ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ariannu Siarter Iaith Cenedlaethol ac mae ariannu'r Siarter yn cael blaenoriaeth gan Gyngor Gwynedd. Gofynnwyd ac atebwyd cwestiynau ac awgrymwyd y gellid cysylltu gyda chynrychiolwyr y Cyngor yma ar gyrff llywodraethol Ysgolion Llanybi, Chwilog a Llanystumdwy i ofyn lle mae'r tair ysgol arni gyda'r gwaith yma. Diolchwyd i Ms Jones ac ar ôl iddi fynd penderfynwyd anfon i'r cynrychiolwyr i ofyn am y wybodaeth.

2. Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Elis Gwyn Jones; Naomi Jones; Marian Evans; Thomas Prys Jones; Aled Lloyd Evans a Gwilym M Thomas.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod Rhagfyr 4ydd, 2014 o'r Cyngor.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Y Cyngorydd Elis Gwyn Jones, er ddim yn bresennol, wedi cyflwyno pris am wneud y gwaith yn eitem 11 ar y rhaglen waith, ar gais y Clerc ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd achos bod cyflwr y fainc yn beryglus a diffyg ymateb i geisiadau am brisiau am y math yma o waith.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned. Penderfynwyd derbyn bod y gwaith wedi'i drefnu i geisio darganfod pam bod y gwter ger Hafan yn Chwilog yn methu ymdopi â'r dŵr yn ystod cyfnod o law trwm i geisio datrys y sefyllfa.
  2. Cyllid; Praesept 2015/16. Penderfynwyd gosod y swm o £15,000- sef yr un swm â'r llynedd.
  3. Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Archwiliwr Gwaith Strydoedd. Derbyniwyd yr ateb y bydd y polion BT ger Ysgol Llangybi a rhes Tai Penrallt, Pencaenewydd yn cael eu symud oddi wrth y ffordd yn y pythefnos/tair wythnos nesaf.
7. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y Gymuned:
1. Cais rhif: C14/1241/41/LL – Estyniad ochr a blaen; Afonwen Laundry Ltd., Chwilog. Cefnogwyd gyda'r sylw oes angen torri'r coed ac os oes a ellir plannu coed yn eu lle ar y safle?
  2. Cais rhif: C14/1210/41/LL – Estyniad unllawr i'r talcen; Pig yr Erw, Llanystumdwy. Cefnogwyd.

Cais am wybodaeth leol:

- Cais rhif: C14/1242/41/TC – Cadarnhau bod gwaith ar lain adeiladu ar gae 1464, Llangybi, wedi ei ddechrau i weithredu caniatad cynllunio 2/21/364; Tir ger Lleifior (Plot 5), Llangybi. Barn y Cynghorwyr lleol oedd nad oedd dim gwaith wedi mynd ymlaen ar y safle yma yn ystod y deng mlynedd diwethaf heblaw dadlwytho llwyth o gerrig ar y safle.
8. Gohebiaeth oddi wrth Network Rail ynghylch erydiad rhwng Afonwen a Glanllynau. Derbyniwyd yr ateb y byddai atgyweiriadau yn cymeryd misoedd ac y byddai angen caniatad asiantaethau eraill i wneud y gwaith.

## **9. Materion yn y gymuned.**

### Rhoslan a'r Ynys

### Llanystumdwy

1. Beicwyr yn cael punctures ar y llwybr beicio rhwng Llanystumdwy a Chricieth ac ym Mhenygroes Llanystumdwy. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.
2. Cyflwr y fainc agosaf at Gricieth ar hyd y llwybr ymyl y briffordd i Gricieth. Sefydlwyd bod y fainc yn beryglus, ei bod angen ei thrwsio ar frys a phenderfynwyd trafod y pris sydd ar eitem 11 ar raglen waith heno.

### Chwilog

Cais i gael clirio'r llanast sydd bob ochr i geg Lôn Chwarel Penarth (gyferbyn â'r Ffatri Laeth) a gosod bin sbwriel yno. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Rheoli Gwastraff Cyngor Gwynedd.

### Llangybi

10. Materion heb gael ymateb iddynt.

1. Derbyniwyd e bost oddi wrth Mr Arfon Hughes, Hwylusydd Tai Gwledig nad oedd wedi gorffen dadansoddi'r wybodaeth gafwyd yn yr holiaduron anghenion tai rannwyd yn Ward Llanarmon a Llanystumdwy. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i Mr

Hughes ddod i gyfarfod mis Chwefror y Cyngor i roi ei adroddiad ar yr amod ei fod yn anfon copi o'r adroddiad ymlaen llaw i'r Clerc gael ei hanfon ymlaen i'r Cynghorwyr i alluogi'r Cynghorwyr ei darllen cyn y cyfarfod.

**Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod o bwyllgor Cyflog ac Amodau Gwaith y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Bydd angen derbyn cofnodion cyfarfod y pwyllgor fu ar Dachwedd 6ed, 2014.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.